Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YMATEB CYHOEDDUS, DOGFENNU

# Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd

Yr hyn yr ydyn ni'n bwriadu ei wneud mewn ymateb i adroddiad Estyn ar wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 20 Chwefror 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 20 Chwefror 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwella-presenoldeb-mewn-ysgolion-uwchradd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


**Manylion yr adroddiad**

**Crynodeb o'r prif ganfyddiadau**

**Argymhellion: trosolwg**

**Argymhellion ac ymateb Llywodraeth Cymru**

**Manylion cyhoeddi**



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwella-presenoldeb-mewn-ysgolion-uwchradd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Manylion yr adroddiad

Mae Estyn wedi cynnal adolygiad thematig o bresenoldeb mewn ysgolion uwchradd ers dileu'r cyfyngiadau a oedd ar waith o ganlyniad i'r pandemig. Mae wedi'i seilio ar dystiolaeth o arolygiadau uwchradd a chanfyddiadau dilynol ers mis Chwefror 2022.

Ni chafodd yr adolygiad thematig hwn ei gomisiynu yn ffurfiol gan y Gweinidog fel rhan o gylch gwaith Estyn 2023 i 2024, ond mae'n cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Mae prif ganfyddiadau'r adroddiad fel a ganlyn.

- Cyn y pandemig, roedd presenoldeb cyffredinol mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed yn gwella'n raddol ymhlith yr holl ddisgyblion, yn ogystal â'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd cyfran y disgyblion a oedd yn absennol o'r ysgol yn barhaus yn gostwng, er ei bod yn parhau'n rhy uchel.
- Er 2020, bu cynnydd nodedig yng nghanran y disgyblion sy'n absennol o'r ysgol. Mae absenoldeb awdurdodedig ac absenoldeb anawdurdodedig wedi cynyddu'n gyflym, a bu gwelliant cyfyngedig yn unig yn 2022 i 2023.
- Er bod setiau data craidd a rennir gydag ysgolion yn ddefnyddiol, byddai'n fuddiol cynnwys gwybodaeth ychwanegol er mwyn galluogi ysgolion i werthuso'n fwy cadarn.
- Roedd y rhan fwyaf o ysgolion a llawer o awdurdodau lleol yn deall pwysigrwydd gwella presenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, nid oedd y gwaith i wella presenoldeb wedi cael digon o effaith dros y 2 flynedd ddiwethaf.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwella-presenoldeb-mewn-ysgolion-uwchradd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Lle’r oedd ysgolion yn dechrau ysgogi gwelliannau mewn presenoldeb, roedd gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel, roeddent yn monitro ac yn gwerthuso cyfraddau presenoldeb yn drylwyr, ac roedd ganddynt brosesau effeithiol i werthuso effaith eu gwaith.
- Lle’r oedd ysgolion yn cael anhawster yn gwella presenoldeb, roedd arweinwyr yn tueddu i gredu eu bod yn gwneud popeth y gallent, er nad oedd hyn yn cael effaith ddigonol, ac nid oeddent yn defnyddio’r ystod eang o wybodaeth oedd ar gael i olrhain, monitro neu ymyrryd â phresenoldeb gwael.
- Mae llawer o ysgolion wedi gwella’u hymagweddau at gasglu barn disgyblion ar sut gallant weithio i wella presenoldeb. Fodd bynnag, caiff y farn hon ei chasglu’n bennaf gan ddisgyblion sy’n mynychu’r ysgol yn fwy rheolaidd, felly nid ydynt yn rhoi digon o wybodaeth i arweinwyr am y rhwystrau i’r disgyblion hynny nad ydynt yn mynychu’r ysgol yn ddigon da.
- Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr mewn ysgolion yn canolbwyntio’n gryf ar wella addysgu ac arlwy eu cwricwlwm i gynorthwyo disgyblion i ymgysylltu’n effeithiol pan fyddant yn yr ysgol.
- At ei gilydd, mae cymorth awdurdodau lleol ar gyfer gwella presenoldeb wedi cael effaith gyfyngedig dros y 2 flynedd ddiwethaf. Nid oedd swyddogion gwella ysgolion yn herio nac yn cynorthwyo arweinwyr ysgolion yn ddigon da i wella’r agwedd hon ar eu gwaith, a phan oedd disgyblion yn cyfeirio at wasanaethau awdurdodau lleol, nid oedd swyddogion yn adeiladu’n ddigon da ar y gwaith a oedd eisoes wedi’i wneud gan ysgolion. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, roedd awdurdodau lleol ac ysgolion yn gweithio gyda’i gilydd yn agos i gynllunio a thargedu cymorth.
- Roedd heriau ariannol presennol, ynghyd â’r gostyngiad ym mhresenoldeb disgyblion, wedi lleihau gallu staff cymorth i ymateb i bryderon. Yn ychwanegol, nid oedd adnoddau i gynorthwyo ysgolion i wella presenoldeb yn cael eu blaenoriaethu’n effeithiol bob amser.
- Roedd nifer o rwystrau rhag gwella presenoldeb disgyblion, ac roedd yn gynyddol anodd i ysgolion fynd i’r afael â’r rhain. Roedd y rhain yn cynnwys dirywiad yn amgyffrediad rhieni am bwysigrwydd presenoldeb da, gallu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwella-presenoldeb-mewn-ysgolion-uwchradd-html** i weld y fersiwn diweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ysgolion i ymateb o gofio'r nifer gynyddol o ddisgyblion targedig, ac amseriad tymhorau a gwyliau'r ysgol.
- Roedd y ffaith fod disgyblion ond yn gymwys i gael cludiant am ddim os ydynt yn byw y tu hwnt i radiws 3 milltir yn her benodol. Roedd arweinwyr ysgolion wedi nodi, yn ystod misoedd pan mae'n bwrw mwy o law, a boreau a nosweithiau tywyllach, nad oedd disgyblion sydd fel arfer yn cerdded i'r ysgol, yn enwedig y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn mynychu mor aml, ar y cyfan.
- Dros y 2 flynedd flaenorol, roedd ysgolion wedi cynyddu eu gallu i ddarparu cymorth targedig i wella presenoldeb disgyblion. O ystyried y pwysau presennol ar gyllidebau ysgolion, roedd arweinwyr ysgolion yn pryderu am gynaliadwyedd y gwaith hwn. Byddai ysgolion yn croesawu cyllid tymor hirach, wedi'i glustnodi i fynd i'r afael â'r flaenoriaeth genedlaethol bwysig hon.
- Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae presenoldeb yn parhau i beri pryder ledled Cymru, ac mae amrywiad mawr mewn cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion unigol ledled Cymru.

## Argymhellion: trosolwg

Dylai ysgolion:

- gryfhau cynllunio i wella presenoldeb yn strategol, gan gynnwys gwneud defnydd effeithiol o ddata i nodi tueddiadau ac mewn cynllunio ymagweddau tymor hir at wella presenoldeb disgyblion
- cryfhau eu hymagwedd at fonitro, gwerthuso a gwella presenoldeb
- cryfhau eu gwaith gyda rhieni a gofalwyr i esbonio pam mae presenoldeb da yn bwysig
- datblygu dulliau mwy effeithiol i gasglu barn disgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd
- sicrhau bod addysgu ac arlwy'r cwricwlwm yn ennyn diddordeb disgyblion

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwella-presenoldeb-mewn-ysgolion-uwchradd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

mewn dysgu

Dylai awdurdodau lleol:

- roi her a chymorth rheolaidd ac effeithiol i ysgolion i wella presenoldeb disgyblion a helpu gwerthuso effaith eu gwaith
- sicrhau bod ymyriadau awdurdodau lleol yn adeiladu ar waith a wnaed eisoes gan ysgolion
- gweithio gydag ysgolion i'w cynorthwyo i weithio gyda rhieni a gofalwyr i ddeall pwysigrwydd presenoldeb da

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r adroddiad yn nodi rhai pethau cadarnhaol o ran sut mae ysgolion yn gweithio i wella presenoldeb, gan nodi bod mwyafrif yr ysgolion a holwyd yn cydnabod pwysigrwydd gwella presenoldeb, gyda llawer ohonynt yn gweld hynny fel blaenoriaeth i'r ysgol gyfan. Canfuwyd hefyd fod ysgolion yn gwneud defnydd cynyddol o lais y disgyblion i'w cynnwys yn llawn wrth ddatblygu strategaethau a nodi'r mathau o gymorth a allai helpu i wella presenoldeb.

Byddwn yn ysgrifennu at gyfarwyddwyr addysg awdurdodau lleol i'w hysbysu am yr argymhellion ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwella-presenoldeb-mewn-ysgolion-uwchradd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Argymhellion ac ymateb Llywodraeth Cymru

## Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ymgyrch genedlaethol i hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb da gyda rhieni, gofalwyr a disgyblion

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn yn rhannol. Rydym yn deall pwysigrwydd cyfathrebu â phlant a'u teuluoedd am bresenoldeb, ond mae'n bwysig deall y ffactorau a'r ymddygiadau sy'n achosi absenoldeb. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys plant, rhieni, gofalwyr, ysgolion ac awdurdodau lleol i ddatblygu'r ddealltwriaeth hon i sicrhau bod y gwaith cyfathrebu yn briodol ac yn effeithiol. Profwyd bod hyn yn fwy effeithiol na chyfathrebu cyffredinol. Un enghraifft o hyn yw'r gwaith sydd ar y gweill gyda Parentkind i ymgysylltu ymhellach â rhieni a gofalwyr i ddeall beth arall y gall Llywodraeth Cymru a phartneriaid ei wneud i gefnogi rhieni a gofalwyr o ran presenoldeb.

## Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut gallai disgyblion sy'n byw o fewn y radiws 3 milltir nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim gael eu cynorthwyo'n well i fynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn. Mae pwerau yn ôl disgresiwn eisoes ar gael i awdurdodau lleol wneud unrhyw drefniant y maen nhw'n gweld yn dda i hwyluso cludiant o'r cartref i'r ysgol. Gall hyn gynnwys darparu cludiant ysgol am ddim i blant y mae eu rhieni

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwella-presenoldeb-mewn-ysgolion-uwchradd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

neu ofalwyr yn derbyn budd-daliadau penodol, i gydnabod y gall fforddiadwyedd trafnidiaeth fod yn rhwystr i rai plant rhag mynychu'r ysgol.

Byddaf yn gofyn i'r Tasglu Presenoldeb Cenedlaethol adeiladu ar ganfyddiadau Estyn ynglŷn â rôl darpariaeth cludiant ar gyfer presenoldeb yn yr ysgol. Byddant yn rhoi sylw penodol i sut y gallwn wella'r arferion a'r prosesau rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol i'w cefnogi i weithio mewn partneriaeth i nodi a goresgyn y rhwystrau.

## Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi setiau data craidd ar gyfer presenoldeb ddwywaith y flwyddyn, gan gynnwys dadansoddiad atchweliad, gweddillebau ar gyfer absenoldebau parhaus a phresenoldeb grwpiau blwyddyn i gefnogi prosesau gwerthuso’r ysgolion eu hunain yn well

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn yn rhannol. Rydym wedi ymrwymo i barhau i ddarparu setiau data craidd ar bresenoldeb i ysgolion ac awdurdodau lleol ar gyfer presenoldeb cynradd ac uwchradd, ond mae'n bwysig cydnabod y bydd unrhyw gasgliadau data neu waith dadansoddi data newydd yn effeithio ar lwyth gwaith ysgolion a Llywodraeth Cymru. Byddwn yn trafod â rhanddeiliaid i ddeall pa ddadansoddiadau ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol fel rhan o'u prosesau hunanwerthuso.

## Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu dadansoddiad wythnosol o bresenoldeb ar lefel ysgol i ddarparu gwybodaeth fwy mynych a gwella ansawdd y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwella-presenoldeb-mewn-ysgolion-uwchradd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## data hwn

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn yn rhannol. Byddwn yn parhau i gyhoeddi data presenoldeb yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ysgol i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol.

## Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir dyrannu cyllid yn fwy effeithiol i gynorthwyo ysgolion i wella presenoldeb

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn. Bydd y trefniadau grant cyfunol newydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol dargedu anghenion lleol. Mae presenoldeb yn flaenoriaeth allweddol i'r grant a bydd y telerau ac amodau yn nodi disgwyliadau ynghylch sut y bydd awdurdodau lleol yn cefnogi ysgolion ag ystyriaethau presenoldeb, yn enwedig mewn ysgolion lle mae presenoldeb yn bryder.

## Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut gallai diwygio’r flwyddyn ysgol gynorthwyo disgyblion yn well i fynychu’r ysgol yn fwy rheolaidd

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn. Drwy'r Ymgynghoriad ar y Flwyddyn Ysgol, a gyhoeddwyd ym mis

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwella-presenoldeb-mewn-ysgolion-uwchradd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Tachwedd 2023, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i edrych ar strwythur presennol y flwyddyn ysgol, gan gynnwys hyd y tymhorau a'r gwyliau.

Mae'r cynigion cychwynnol a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad yn cynnwys ymestyn y gwyliau hanner tymor mis Hydref i bythefnos a byrhau gwyliau'r haf i 5 wythnos, yn ogystal â chael toriad y gwanwyn ar ganol tymor y gwanwyn yn hytrach na gwyliau ynghlwm wrth y Pasg. Mae cynigion dilynol yn edrych ar ymestyn y gwyliau hanner tymor mis Mai i bythefnos a byrhau gwyliau'r haf i 4 wythnos. Mae'r newidiadau hyn yn cael eu cynnig heb unrhyw newid i gyfanswm cyffredinol y gwyliau ysgol i ddysgwyr a staff addysgu, a bydd gwyliau'r haf yn para am o leiaf 4 wythnos.

Datblygwyd y cynigion yn dilyn ymchwil ac ymgysylltu helaeth, a'u bwriad yw helpu i sicrhau cysondeb o ran hyd tymhorau i wella'r potensial i ddysgu ac i ddarparu strwythur dysgu mwy cyson. Ar ben hynny, gallai gwasgaru'r gwyliau yn fwy cyfartal trwy gydol y flwyddyn a chynnig wythnos ychwanegol o wyliau yn ystod y tymor hiraf (yr hydref) gefnogi llesiant yn well a helpu i leihau blinder a deimlir gan ddysgwyr a staff ysgol.

Drwy'r gwaith hwn mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau nad yw blinder dysgwyr yn rhwystr rhag mynychu'r ysgol. Drwy dymhorau mwy cyson eu hyd a sicrhau nad ydynt yn rhy hir, rydym yn gobeithio cefnogi presenoldeb dysgwyr yn well.

Yn ddibynnol ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad, disgwylir i unrhyw newidiadau i'r calendr ysgol gael eu cyhoeddi yng ngwanwyn 2024, i'w gweithredu o flwyddyn ysgol 2025 i 2026.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwella-presenoldeb-mewn-ysgolion-uwchradd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i nodi’r ffactorau sy’n effeithio ar bresenoldeb gwael a darganfod y dulliau mwyaf effeithiol o wella presenoldeb

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn yn rhannol. Mae gennym eisoes nifer o ffynonellau ymchwil y gallwn eu defnyddio i nodi'r ffactorau sy'n effeithio ar bresenoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys ' **Adolygiad presenoldeb, goblygiadau'r pandemig COVID-19 ar bresenoldeb mewn ysgolion**' ac **ymchwiliad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd i 'Absenoldebau Disgyblion'**. Mae gennym hefyd ganlyniadau'r **arolwg Parentkind** (Saesneg yn unig) diweddar a oedd yn cynnwys canfyddiadau defnyddiol megis rhwystrau canfyddedig rhag presenoldeb a chanfyddiadau ac agweddau rhieni tuag at ysgolion ac addysg.

Mae ein rhaglen ymchwil barhaus, wedi'i chynllunio, yn edrych ar oblygiadau'r pandemig ar gyfer dysgwyr, atal gwaharddiadau, effeithiolrwydd Ysgolion Bro, y system anghenion dysgu ychwanegol, ac effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Mae'r holl brosiectau hyn yn ystyried sut y gellir defnyddio'r polisïau dan sylw i'r eithaf i gefnogi presenoldeb ac ennyn diddordeb.

Rydym yn adolygu ein sylfaen dystiolaeth yn barhaus i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth lawn o ffactorau sy'n effeithio ar bresenoldeb. Rydym yn ymwybodol bod angen dyfnhau ein dealltwriaeth o ffactorau cartref a theulu sy'n effeithio ar bresenoldeb, a blaenoriaeth uniongyrchol felly yw adeiladu ar yr arolwg a gynhaliwyd gan Parentkind. Bydd trafodaethau o'r fath yn parhau i lywio ein holl bolisïau ac ymyraethau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwella-presenoldeb-mewn-ysgolion-uwchradd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Manylion cyhoeddi

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 18 Ionawr a gellir ei ganfod ar **wefan Estyn**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gwella-presenoldeb-mewn-ysgolion-uwchradd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.